Plaid Cymru | Party of Wales

## Wales in Europe
## EU Referendum Campaign



*Dear Friend,*

With the referendum on the UK's membership of the European Union just days away, we have one final plea from Plaid Cymru – that you **use your vote on June 23 to do what's best for Wales.**

This is not, as you might be forgiven for thinking, a debate about who leads the Conservative Party in the future. There is much more to it than that.

Before you cast your vote, we ask you to ask yourself these questions. Which institution best gives Wales its voice in the wider world - Westminster or the EU? Which body provides best for our poorest communities? Which is best at redistributing wealth? Who do you most trust on the crucial question we face - us or the likes of Farage and Boris Johnson?

With successive polls showing the result likely to be close, your support matters. Do you want Wales to play a full part in a community of nations which values cooperation? How will you feel if you wake up on June 24th and the Tories and the far-right have won and you didn't vote? The vote going the wrong way will result in Wales being isolated and at the full mercy of the London elite. The implications for the future of Wales are far-reaching.

We firmly believe it is in Wales' best interests to remain in the EU. It is the best chance we have to defend ourselves against the worst of the Tories. Will they protect the Working Time Directive, human rights, workers' rights, disability rights, environmental protections? We are in no doubt that by retaining our membership of the EU, our country has the best chance of becoming the successful nation we know it can be.

The European Union is far from perfect, but we know that Wales – working with other small countries – can mould it into a successful democratic partnership. We can build on the infrastructure of solidarity and equality that has been laid already to secure future peace and prosperity.

**On June 23 you have the opportunity to safeguard our future - we urge you to seize it.**

For Wales,

Leanne Wood

Leanne Wood
Leader of Plaid Cymru

Dafydd Wigley
Plaid Cymru Honorary President

Cymru yn Ewrop — Wales in Europe

**For more information visit: www.plaid2016.wales**

**#WalesinEurope**

Hyrwyddwyd gan / Promoted by Plaid Cymru, Ty Gwynfor, Llys Anson Court, Caerdydd CF10 4AL
Argraffwyd gan / Printed by Rightsort, Unit 29 Penley Industrial Park, Penley, Wrexham LL13 0LQ

Plaid Cymru | Party of Wales

# Cymru yn Ewrop
# Ymgyrch Refferendwm yr UE



Annwyl Gyfaill,

Gyda'r refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Gyfunol o'r Undeb Ewropeaidd yn nesáu, mae gan Blaid Cymru un apêl olaf – i chi **ddefnyddio eich pleidlais ar Fehefin 23 i wneud yr hyn sydd orau i Gymru.**

Nid yw hon yn ddadl am bwy fydd yn arwain y Blaid Geidwadol yn y dyfodol, er y byddem yn maddau i chi am feddwl hynny. Mae llawer mwy iddi na hynny.

Cyn i chi fwrw eich pleidlais, gofynnwn i chi ystyried y cwestiynau hyn. Pa sefydliad sy'n rhoi i Gymru ei llais yn y byd ehangach – San Steffan yntau'r UE? Pa gorff sy'n darparu orau i'n cymunedau mwyaf difreintiedig? Pa un sydd orau am ailddosbarthu cyfoeth? Pwy ydych chi'n ymddiried ynddynt ar y cwestiwn allweddol sy'n ein hwynebu – ni, ynteu Farage, Boris Johnson a'u tebyg?

Gydag un arolwg barn ar ôl y llall yn dangos fod y canlyniad yn debygol o fod yn agos, mae eich cefnogaeth yn cyfri. Ydych chi eisiau i Gymru chwarae ei rhan mewn cymuned o genhedloedd sy'n gwerthfawrogi cydweithrediad? Sut fyddech chi'n teimlo pe baech yn deffro ar Fehefin 24 a'r Torïaid a'r adain-dde eithafol wedi ennill a chithau heb bleidleisio? Pe bai'r bleidlais yn mynd y ffordd anghywir bydd Cymru wedi ei hynysu ac yn llwyr ar drugaredd yr elit Llundeinig. Mae'r goblygiadau i ddyfodol Cymru yn sylweddol.

Credwn yn gryf y caiff buddiannau Cymru eu gwarchod drwy aros yn yr UE. Dyma'r siawns orau sydd gennym o amddiffyn ein hunain rhag y Ceidwadwyr. A wnân nhw warchod hawliau dynol, hawliau gweithwyr a'n hamgylchedd? Heb os, credwn fod aros yn rhan o'r UE yn cynrychioli'r cyfle gorau i Gymru dyfu i fod y genedl lwyddiannus y gwyddom y gall hi fod.

Mae'r Undeb Ewropeaidd yn bell o fod yn berffaith, ond gwyddom y gall Cymru – drwy weithio gyda gwledydd bychain eraill – ei siapio i fod yn bartneriaeth ddemocrataidd lwyddiannus. Gallwn adeiladu ar y gwreiddiau o undod a chydraddoldeb sydd eisoes wedi ei gosod i sicrhau heddwch a llewyrch ar gyfer y dyfodol.

**Ar Fehefin 23, mae gennych y cyfle i ddiogelu ein dyfodol – da chi, peidiwch â'i golli.**

Dros Gymru,

Leanne Wood
Arweinydd Plaid Cymru

Dafydd Wigley
Llywydd Anrhydeddus Plaid Cymru

Cymru yn Ewrop — Wales in Europe

**Am fwy o wybodaeth ewch i: www.plaid2016.cymru**

**#CymruynEwrop**

Hyrwyddwyd gan / Promoted by Plaid Cymru, Ty Gwynfor, Llys Anson Court, Caerdydd CF10 4AL
Argraffwyd gan / Printed by Rightsort, Unit 29 Penley Industrial Park, Penley, Wrexham LL13 0LQ